# Ar Osod

## 1  Rhodfa Stepney, Llanelli SA15 1YN

### Gwahoddir cynigion o oddeutu £25,000 y flwyddyn




- Uned A1 deulawr
- Gofod gros o 246 metr sgwâr (2,647 troedfedd sgwâr)
- Lleoliad manteisiol iawn yng Nghanol Tref Llanelli

Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire County Council

EICH CYNGOR arleinamdani
www.sirgar.llyw.cymru/eiddo

YOUR COUNCIL doitonline
www.carmarthenshire.gov.wales/property

## Disgrifiad

Wedi'i leoli'n ganolog yng nghanol y dref, mae 1  Rhodfa Stepney mewn safle amlwg yng nghanol canolfan fanwerthu Llanelli. Mae'r uned yn wynebu canol y dref gan gysylltu â Chanolfan Siopa Sant Elli a Marchnad Dan Do Llanelli. Ymhlith y meddianwyr sy'n agos i'r uned mae Rowberry, Boots, Wilkos, Asda, Greggs, Santander, Halifax a Lloyds Bank.

Yn fewnol mae ardal fanwerthu llawr gwaelod eang gyda ffryntiad mewnol o tua 15m gyda ffenestri arddangos. I'r cefn mae mynediad i'r llawr uchaf a'r gofod cylchdroi. Mae'r llawr uchaf yn cynnwys swyddfa, ystafell storio, ardal gylchdroi fawr, toiledau i ddynion a menywod ynghyd ag ystafell/cegin staff.

## Llawr Gwaelod Mewnol



## Llawr Cyntaf Mewnol



## Ystafell/Cegin Staff



## Adfywio canol trefi

Yn sgil cael cymorth ariannol gan Lywodraeth Cymru, mae'r Cyngor wedi mynd ati i gaffael eiddo gwag ac eiddo sy'n cael ei danddefnyddio yng nghanol y dref. Drwy annog defnydd cymysg mewn canol trefi gan gynnwys gofod manwerthu hyblyg, a llety preswyl ar y llawr uchaf, mae'r Cyngor yn helpu i hyrwyddo amgylchedd o ansawdd uchel sy'n ddeniadol ac i gymysgedd o bobl. Mae nifer o eiddo gwag yn cael eu defnyddio unwaith eto ac mae cyfanswm o dros £18 miliwn yn cael ei fuddsoddi yng nghanol y dref drwy adfywio eiddo.

## Llety

Maint gros y tu mewn: 246 metr sgwâr (2 troedfedd sgwâr)

## Gwasanaethau

Mae gan y safle ei gyflenwad trydan, nwy a dŵr ei hun. Bydd y tenant a gymer y lle yn gyfrifol am drosglwyddo'r cyfrifon cyfleustodau i'w enw ef/hi ac am dalu'r biliau.

Ni roddwyd prawf ar ddim un o'r gwasanaethau a dylech wneud eich ymholiadau eich hunan ynghylch hyn

## Tystysgrif Perfformiad Ynni

Sgôr perfformiad ynni: C



## Ystyried y Cynigion

Rydym yn annog ceisiadau gan ystod eang o fusnesau sydd eisoes yn bodoli a rhai nad ydynt eto wedi cael eu sefydlu.

Os bydd cynigion tebyg neu gystadleuol yn dod i law, bydd y Cyngor yn blaenoriaethu'r rheiny a fydd yn fuddiol i Lanelli o ran y cyd-destun strategol ehangach.

## Ardrethi Busnes

Gwerth Ardrethol: £22,500

## Telerau'r Brydles

Rhent: £25,000 y flwyddyn heb gyfrif taliadau eraill

Tymor: 5 Mlynedd (ond gellid ystyried tenantiaeth hirach)

Atgyweiriadau/Yswiriant: Tenant i drwsio a Landlord i yswirio ac adennill

Bydd geirdaon masnachu a bancio yn ofynnol, ac mae'n bosibl y bydd gwarantwr yn ofynnol gan y Cyngor.

Defnydd A1.

Gellid ystyried defnydd gwahanol o'r eiddo a chynghorir darpar denantiaid i holi'r awdurdod cynllunio lleol i gael gwybod a yw'r defnydd a fwriedir ganddynt yn addas.

## Costau Cyfreithiol

Bydd pob parti'n gyfrifol am ei gostau cyfreithiol ei hun yn sgil y trafodion hyn

## I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch ag:

Neuadd y Sir
Caerfyrddin
SA31 1JP
**Alex Williams MPlan, Syrfëwr Graddedig**
Rhif ffôn. 01267 242379
E-bost: ADWilliams@sirgar.gov.uk

You will need to operate bilingually according to the Council's policies including interior and exterior bilingual signs in the property. There is an advice and assistance service as well as free translation and proof-reading available. For information, go to www.carmarthenshire.gov.wales/home/business and click on 'Welsh Language in business'

For information and help to work biligually, go to www.carmarthenshire.gov.wales/home/business and click on 'Welsh Language in business'

These particulars are intended to give a fair description of the property, but are set out for guidance only. Their accuracy cannot be guaranteed and you should satisfy yourself by inspection or otherwise as to their correctness. Carmarthenshire County Council is obliged to consider all offers received in respect of this property up until the exchange of contracts. It is not obliged to accept the highest or any offer.

Bwriedir i'r manylion hyn roi disgrifiad teg o'r eiddo, ond canllaw ydynt yn unig. Ni ellir gwarantu eu cywirdeb a dylech chi fodloni eich hun eu bod yn gywir, drwy eu harchwilio neu fel arall. Mae rheidrwydd ar Gyngor Sir Caerfyrddin i ystyried pob cynnig a ddaw i law am yr eiddo hwn hyd nes y cyfnewidir contractau. Nid oes rheidrwydd i dderbyn y cynnig uchaf nac unrhyw gynnig. Ni fydd yr Awdurdod ychwaith yn gyfrifol mewn unrhyw fodd am gostau sydd gan ddarpar brynwr yn sgil dod i gael golwg ar yr eiddo, a all gael ei werthu neu ei dynnu oddi ar y farchnad heb rybudd.

Nodiadau